Mai 2009

Awdur: John Weston

Cyf: 355A2009

# Templed Asesu Risg 2009

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Cynnwys

Templed Asesu Risg 2009 4

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 1: Gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru** | | | | | | | |
| Absenoldeb Oherwydd Salwch | 1.1 | Noda'r Cynllun Gwella fod y gwasanaeth wedi colli 8.1 diwrnod neu sifft y pen yn ystod 2007-08, sy'n uwch na'r targed yng Nghymru sef 6.5 diwrnod. | Risg bosibl i berfformiad cyffredinol y gwasanaeth. | Canolig | Noda'r Cynllun Gwella fod nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch wedi lleihau ar y cyfan ac y caiff polisïau i reoli a gostwng cyfraddau salwch eu cynnal.<br>Mae iechyd cyflogeion hefyd yn risg gorfforaethol yn y Cynllun Lleihau Risg. | Canolig | |
| Strwythurau Rheoli | 1.2 | Cwblhawyd y gwaith o ad-drefnu'r Gwasanaeth fel rhan o'r rhaglen foderneiddio ac mae'r strwythur rheoli presennol yn gweithio'n effeithiol. | Risg bosibl i berfformiad cyffredinol y gwasanaeth. | Canolig | Cydnabu'r Awdurdod fod angen adeiladu ar y gwaith hwn o ran gosod y strwythur o fewn y Gwasanaeth, ac addasu'r strwythur lle y bo angen i ymateb i arfer da a datblygiadau allanol. Mae'r adolygiad presennol o strwythurau'r System ar Ddyletswydd Wrth Gefn yn enghraifft o'r dull hwn o weithredu. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 1: Gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru** | | | | | | | |
| Rheoli Prosiect | 1.3 | Mae'r Awdurdod wedi darparu hyfforddiant Prince 2 i sawl swyddog er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag arfer gorau. | Y posibilrwydd o ddiffyg cydgysylltu o ran cyflawni polisi a mentrau. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn cynnal amrywiaeth o brosiectau sydd wedi'u rheoli gan staff hyfforddedig, neu a fydd yn cael eu rheoli ganddynt, er enghraifft y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd a chynigion am gyfleuster ar y cyd yn Wrecsam. | Canolig | |
| Aelodau | 1.4<br>Gweler 2.8 isod | | | | | | |
| Sefyllfa ariannol | 1.5 | Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb ac mae ei sefyllfa ariannol gyffredinol yn gadarn gyda'r union wariant yn 2007/08 ddim ond £2,000 yn is na'r gyllideb. Mae'r adroddiad diweddaraf ar fonitro'r gyllideb yn amcangyfrif tanwariant o £115,000 ar gyfer 2008-09. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Canolig | Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o'i bwysau ariannol a'r angen i gynnal sefyllfa ariannol effeithiol i sicrhau y darperir y Gwasanaeth. | Canolig | Adolygu cynnydd fel rhan o'r broses Asesu Risg ar y Cyd nesaf a'r Llythyr Archwilio Blynyddol. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 1: Gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru** | | | | | | | |
| Rheoli Ariannol | 1.6 | Daeth Llythyr Archwilio 2007-08 i'r casgliad bod trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod yr Awdurdod ond yn ymgymryd â thrafodion cyfreithlon ac roeddent wedi parhau i weithredu'n effeithiol. Cafwyd bod fframwaith moesegol yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol hefyd ynghyd â'r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll a llygredd fel y gwelwyd yn y strategaeth gwrth-dwyll a llygredd a'r polisi ynglŷn â chwythu'r chwiban.<br>Mae'r Awdurdod wrthi'n sefydlu Pwyllgor Archwilio ffurfiol i ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud â chraffu, rheoli risg ac archwilio. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Isel | Caiff effeithiolrwydd y trefniadau hyn ei fonitro yn ystod y flwyddyn i ddod. | Isel | Adolygu cynnydd fel rhan o'r broses Asesu Risg ar y Cyd nesaf a'r Llythyr Archwilio Blynyddol. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 1: Gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru** | | | | | | | |
| Datganiadau ariannol | 1.7 | Mae adolygiad KPMG o systemau ariannol yr Awdurdod wedi cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a lle y bo angen brofi rheolaethau mewnol. Caiff yr Awdurdod sicrwydd hefyd o'r rhaglen waith a gynhaliwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Daethpwyd i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Rhoddwyd barn ddiamod ar y gyfres ddiwethaf o ddatganiadau ariannol a archwiliwyd. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Isel | Mae angen i'r Gwasanaeth gynnal ei systemau ariannol effeithiol presennol. | Isel | Adolygu cynnydd fel rhan o'r broses Asesu Risg ar y Cyd nesaf a'r Llythyr Archwilio Blynyddol. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 1: Gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru** | | | | | | | |
| Risg i TG | 1.8 | Cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad o'r risgiau mawr i TG yn ystod hydref 2008 a nodwyd ei fod yn rheoli, yn cynnal ac yn cefnogi ei anghenion TGCh yn effeithiol. Gwelwyd hefyd ei fod yn wynebu heriau newydd:<br>• cynnal adolygiad Amgylchedd Rheoli Agweddau Ariannol (FACE) o bob system ariannol a ddatblygwyd yn fewnol; ac<br>• adolygu'r datblygiadau diweddaraf yn y rhwydwaith gan ddefnyddio'r dangosydd gwendidau yn y rhwydwaith. | Risg bosibl o berfformiad gwael o ran y seilwaith TGCh. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r risgiau canolig ac uchel a nodwyd yn Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'i systemau TG. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| Rôl Ehangach yr Awdurdodau Tân ac Achub | 2.1<br>Cyfrannu at agenda cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi pobl Llywodraeth y Cynulliad – drwy *weithio gyda gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau.* | Yn sgîl nifer fawr o farwolaethau ac anafiadau damweiniol oherwydd tân yng Ngogledd Cymru, crëwyd 'grŵp gorchwyl' a oedd yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint. Gwnaeth y grŵp gorchwyl 44 o argymhellion sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd. | Risg bosibl o ran y gallu i gyflawni amcanion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân. | Uchel | Cytunwyd ar brotocolau rhannu data gyda phob Awdurdod Unedol yng Ngogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a Thair Ymddiriedolaeth y GIG.<br>Y Prif Swyddog Tân sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r argymhellion a chaiff y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt yn rheolaidd.<br>Cwblhawyd 22 o'r 44 o argymhellion.<br>**Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran darparu adnoddau ar gyfer argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân (Risg 2) a'u gweithredu.<br>Cynnal adolygiad o ganlyniadau argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddogion Tân gyda chymorth menter Ffyrdd Callach o Weithio Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn amlygu allbynnau cadarnhaol gwaith y Grŵp Gorchwyl. | Canolig | 'Maes i'w ddatblygu' yn Adroddiad y Tîm Asesu Cymheiriaid – 'Ailgynnull y Grŵp Gorchwyl yn unol â bwriad y Prif Swyddog Tân er mwyn adolygu cynnydd a llunio adroddiad newydd gyda chamau gweithredu ategol'.<br>Swyddfa Archwilio Cymru i ddechrau prosiect astudiaeth achos byr i ystyried effeithiolrwydd Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân fel rhan o'r prosiect Ffyrdd Callach o Weithio a fydd yn nodi canlyniadau cadarnhaol gwaith y Grŵp Gorchwyl. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.2<br>Cyfrannu at agenda cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi pobl Llywodraeth y Cynulliad – drwy *dargedu gweithgareddau at bobl sy'n agored i niwed*, i'w gwneud yn fwy diogel yn eu cartrefi. | Gweler y sylwadau uchod am Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân. | Y posibilrwydd o fethu â chyflawni agenda cydlyniant cymunedol Llywodraeth y Cynulliad. | Uchel | Gweler y sylwadau uchod. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.3<br>Cyfrannu at ddyfodol economaidd Cymru drwy ddiogelu pobl a seilwaith. | Nod Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yw gwella diogelwch gartref a gweithredu Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio. (Diogelwch Tân) 2005. Mae'n dechrau cael effaith gyda llai o danau annomestig wedi'u cofnodi yn 2007-08. | Risg bosibl o ddifrod i eiddo a risg i bobl mewn achosion o dân damweiniol. | Canolig | Yn sgîl Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân, mabwysiadwyd Strategaeth Diogelwch Cymunedol tair blynedd gan yr Awdurdod. Mae'r rhan fwyaf o'r amcanion wedi'u cyflawni. Nododd y **Tîm Asesu Cymheiriaid (2008)** y canlynol: Byddai adolygiad o ganlyniadau gweithgareddau presennol (sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol) yn helpu i lywio strategaeth y dyfodol (Risg 5). | Isel | Gweithredu'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd yn Adroddiad yr Adolygiad o Gymheiriaid. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.4 Cyfrannu at agenda cydlyniant cymunedol Llywodraeth y Cynulliad – drwy addysgu a defnyddio'r esiampl gadarnhaol a osodir gan staff yr Awdurdod Tân ac Achub i ailennyn diddordeb y bobl ifanc hynny sydd wedi ymddieithrio a'r rhai hynny sydd wedi'u hallgáu neu'n troseddu, neu sy'n wynebu risg o hynny. | Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda chymunedau ledled Gogledd Cymru ac wedi sefydlu sawl menter, er enghraifft Prosiect Phoenix. | Risg bosibl y bydd grwpiau penodol yn ymddieithrio mewn cymdeithas gan arwain at fwy o danau ac anafiadau posibl. | Canolig | Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu amrywiaeth o fentrau a phrosiectau i gynnwys pobl ifanc. Mae hyn wedi cynnwys cwblhau Gorsaf Dân Gymunedol yn y Rhyl, targedu pobl ifanc drwy 'Crucial Crew' (menter amlasiantaethol) a thrwy sefydlu Addysgwyr Diogelwch Cymunedol.<br>Ceir Rheolwyr Diogelwch Sirol ym mhob Ardal a Reolir yng Ngogledd Cymru sy'n gyfrifol am ymgysylltu â phob grŵp mewn cymdeithas. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.5<br>Cyfrannu at agenda amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad drwy weithgarwch ymatebol a rhagweithiol sy'n atal tanau, yn enwedig y rhai hynny sy'n peryglu *treftadaeth a thirlun naturiol* Cymru. | Canolbwyntio ar dreftadaeth a thirlun naturiol ee, tân gwyllt, coetir. | Posibilrwydd o niwed difrifol i'r amgylchedd lleol yn sgîl tanau glaswellt ac eithin. | Canolig | Mae gan yr Awdurdod Dîm Atal Tanau Bwriadol sefydledig sy'n wasanaeth a redir ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru. Ymhlith ei ddyletswyddau mae amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd i atal tanau eithin a glaswellt damweiniol a bwriadol. Noda Cynllun Gwella'r Awdurdod fod nifer y tanau 'eilaidd' wedi lleihau, yn rhannol oherwydd amodau tywydd amrywiol o flwyddyn i flwyddyn ond hefyd oherwydd y gwaith ataliol ac addysgol y mae'r Awdurdod wedi buddsoddi ynddo. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.6<br>Cyfrannu at agenda amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad drwy leihau 'ôl-troed carbon' yr Awdurdodau Tân ac Achub. | Mae'r Awdurdod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at gyflawni ei rwymedigaethau i asesu ei ôl-troed carbon a'i leihau lle y bo'n bosibl. Er enghraifft:<br>• Cynlluniau Teithio Gwyrdd.<br>• Cynllun Beicio i'r Gwaith.<br>• Monitro'r defnydd a wneir o ynni mewn amrywiaeth o feysydd.<br>• Cynlluniau ailgylchu.<br>• Olrhain y defnydd a wneir o'r Fflyd. | Methiant i leihau'r ôl-troed carbon yn realistig? | Uchel | Adolygwyd y gwaith o gynnal a chadw'r fflyd gerbydau fel rhan o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o brosesau rheoli fflyd. Nodwyd rhai meysydd o arfer da, er enghraifft y defnydd o gwmni allanol i fonitro'r defnydd a wneir o olew.<br>Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno rhaglen 'Y Ddraig Werdd' ac wedi sefydlu cyfleusterau ailgylchu yn ei brif orsafoedd. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.7<br>Cyfrannu at agenda ddiwylliannol Llywodraeth y Cynulliad drwy sicrhau bod yr Awdurdod yn ddwyieithog ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth yng Nghymru. | Mae'r Awdurdod yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol ac mae wedi rhoi cyfres o bolisïau ar waith i sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn Gymraeg.<br>Mae'r gwasanaeth hefyd wedi lansio Strategaeth Sgiliau Ieithyddol sydd wedi cynnwys cyflwyno Cymraeg Lefel 1 fel un o'r gofynion mynediad ar gyfer staff sydd ar gyfnod prawf. Hefyd, cynhaliwyd archwiliad o sgiliau Ieithyddol staff ac un o ganlyniadau defnyddiol y gwaith hwn oedd nodi siaradwyr Pwyleg i'w defnyddio mewn ardaloedd a dargedir. | Methiant i fodloni gofynion deddfwriaethol. | Canolig | Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol yr Awdurdod am ei gynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2007-08.<br>Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod elfennau o arfer da, yn arbennig y cynnydd yng Nghallu ac Adnoddau Cymraeg y Gwasanaeth. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.8<br>Cyfrannu at agenda llywodraethu da Llywodraeth y Cynulliad drwy ymateb i anghenion y gymuned a sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn modd democrataidd a thryloyw. | Sefydlu Pwyllgor Archwilio a Chraffu ym mis Mehefin 2009. | Methiant i fodloni gofynion deddfwriaethol. | Canolig | Cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad eang ar y cynigion a gynhwysir yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg 2009/10. Cyflwynwyd sylwadau ac ymatebion i Aelodau yng Nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 22 Medi 2008 ac wedi hynny i'r Awdurdod cyfan ar 20 Hydref 2008.<br>Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu argymhellion Adroddiad Craffu SAC ac mae wrthi'n creu Pwyllgor Archwilio a Chraffu.<br>Mae'r Awdurdod hefyd yn ceisio achrediad o dan Siarter Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae is-gadeirydd yr Awdurdod wedi'i ddewis yn 'Hyrwyddwr Aelodau'. | Canolig | Mae posibilrwydd o lunio adroddiad dilynol ar arfer da wrth Graffu pan fydd y trefniadau newydd ar waith? |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| Agenda Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth y Cynulliad | 2.9<br>Rhoi dinasyddion yn gyntaf – mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r Awdurdodau Tân ac Achub roi'r dinesydd wrth wraidd eu gweithgareddau.<br>Dylai penderfyniadau strategol fod yn agored ac yn dryloyw.<br>Dylai gorsafoedd tân lleol fod yn hygyrch ac ar agor i'r cyhoedd. | Mae'r Awdurdod wedi defnyddio cryn adnoddau er mwyn sicrhau ymgynghoriad agored ar bob prif ddogfen a blaenoriaeth. Mae gorsafoedd ar agor i'r cyhoedd fel mater o drefn ac mae Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn llwyddiant mawr yn y gymuned leol. | Methiant i ddiwallu anghenion gwirioneddol y gymuned. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer mewn cymunedau lleol drwy ei fentrau ei hun a thrwy ymgysylltu â'r wasg leol. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, ymweliadau pwrpasol â chartrefi nyrsio, cartrefi myfyrwyr ym Mangor, parciau manwerthu a 'chynlluniau ymwybyddiaeth o ddiogelwch' mwy cyffredinol. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.10<br>Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i wasanaethau'r Awdurdodau Tân ac Achub fod yn hyblyg a gallu ymateb i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed ac wedi'u hallgáu. | Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer yn y gymuned leol i sicrhau y caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol.<br>Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag amrywiaeth o asiantaethau i helpu i nodi grwpiau sy'n agored i niwed.<br>(Gweler hefyd 3.13 isod o ran yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Lleihau Risg.) | Methiant posibl i ymgysylltu'n llawn â'r cyhoedd. | Isel | **Nododd Tîm PAT 2007 y canlynol:** 'Mae'r Gwasanaeth yn darparu amrywiaeth eang o bartneriaethau / mentrau cymunedol megis y Cerbyd Addysgol Amlbwrpas, FACE, Prosiect Phoenix, Crucial Crew, Diffoddwyr Tân Ifanc, Dangerpoint, diwrnodau ymwybyddiaeth amgylcheddol, Rhaglen Ysgolion Tani ac ati ac yn cymryd rhan ynddynt.'<br>Mae Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn helpu i wneud gwelliannau o ran targedu'r mentrau hyn. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.11<br>Cydweithio fel Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y dylid datblygu cysylltiadau presennol, megis y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd er mwyn darparu gwasanaethau drwy gydgysylltu darparwyr yn ddidrafferth. | Mae'r Awdurdod wrthi'n llunio achos busnes ar gyfer prosiect ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn disodli Gorsaf Dân Wrecsam a Swyddfa'r Sir. Byddai'r prosiect yn cynnwys cyfleuster Tri Gwasanaeth yn Ardal Wrecsam i ddarparu ymateb Brys a system Weinyddu yn rhan Ddwyreiniol Ardal Heddlu Gogledd Cymru.<br>Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried defnyddio rhai o'i safleoedd i leoli Ambiwlansys Brys.<br>Mae'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru ar agor ac mae eisoes yn dangos gwelliannau i'r gwasanaeth a buddiannau cost. | Methiant i nodi gwelliannau posibl i'r ffordd y darperir gwasanaethau. | Isel | Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda gwasanaethau brys eraill i gyd-leoli cyfleusterau lle y bo'n bosibl, ond cafwyd anawsterau wrth ddatblygu rhai cynlluniau, yn bennaf oherwydd problemau sydd y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth.<br>Nid yw'r Awdurdod yn ystyried gweithredu cyfleusterau cyd-ymateb ar hyn o bryd. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 2: Llywodraethu a'r gydberthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad** | | | | | | | |
| | 2.12<br>Gwerth am Arian – Dylai fod gan Awdurdodau Tân ac Achub gynlluniau (gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Asedau) ar waith i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer sicrhau gwerth am arian gwell. Dylai'r meysydd allweddol gynnwys caffael mewn ffyrdd callach; symleiddio swyddogaethau cymorth; llunio gwasanaethau'n fwy effeithiol i ddiwallu anghenion y cyhoedd; a gwneud defnydd gwell o amser, sgiliau ac arbenigedd staff. | Mae gan yr Awdurdod Dîm Rheoli Cyfleusterau ar y Cyd – a redir ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru – sydd wedi llunio Cynllun Rheoli Asedau pum mlynedd ac mae'n arolygu'r holl gyfleusterau, gan gynnwys asesiad ar ran y ddraig werdd a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. | Methiant posibl i reoli'r ystâd. | Isel | Mae'r Cynllun Gwella yn nodi lefel yr enillion effeithlonrwydd a wnaed yn ystod 2007-08. £286,000 oedd cyfanswm yr arbedion a wnaed – gan gynnwys £58,000 a arbedwyd drwy aildrefnu prydlesi. Rhagwelir rhagor o enillion dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.<br>Er mwyn cynnal gallu gweithredol mae'r gwasanaeth wedi defnyddio staff anweithredol i gynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Diogelu'r amgylchedd adeiledig – Eiddo domestig | 3.1<br>A yw'r Awdurdod wedi ystyried effeithiolrwydd yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd hyd yma (ac yn benodol sut mae'r camau ataliol a gymerir yn cysylltu â gofynion Cynlluniau Lleihau Risg a Safonau Gwasanaeth yr Awdurdod)? | Mae'r Awdurdod wedi buddsoddi'n helaeth mewn Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Mae Cynllun Gwella 2008-09 yn nodi cynnydd yn nifer y larymau mwg a oedd yn gweithio mewn tanau yr aeth y gwasanaeth iddynt – sef 63 y cant yn 2007-08 o gymharu â 56 y cant yn 2006-07.<br>Mae gwaith ychwanegol gan Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn canolbwyntio ar dargedu Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref at gartrefi mewn perygl. | Y posibilrwydd o golli bywydau | Uchel | Mae'r Awdurdod yn parhau â rhaglen sylweddol o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref – gan dargedu cartrefi ychwanegol sy'n agored i ddifrod ac mewn perygl. Mae'r Cynllun Gwella yn anelu at sicrhau bod larymau mwg wedi'u gosod ym mhob cartref. Mae Rheolwyr Diogelwch Sirol yn ymwneud yn helaeth â'r gwaith o hysbysebu hyn yn ogystal â mentrau diogelwch eraill ac mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd da o adnoddau eraill megis gweithwyr cymorth diogelwch tân yn y cartref. **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** 'Mae'r sefydliad wedi gwneud cynnydd o ran yr argymhellion yn gofyn am newid allanol ac mae adnoddau wedi'u neilltuo i roi'r argymhellion ar waith' (Risg 2).<br>Hefyd, mae adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer y Strategaeth Diogelwch Cymunedol ac mae llawer o'r amcanion wedi'u cyflawni. (Risg 5).<br>Yn fwy cyffredinol, adolygwyd polisïau diogelwch tân a **nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol;** Mae'r dull newydd o weithredu yn mynd rhagddo a byddai adolygiad o adnodd diogelwch tân a strategaeth hyfforddi addas o fudd iddo (Risg 4). | Canolig | Swyddfa Archwilio Cymru i ddechrau prosiect astudiaeth achos byr i ystyried effeithiolrwydd Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân fel rhan o'r prosiect Ffyrdd Callach o Weithio a fydd yn nodi canlyniadau cadarnhaol gwaith y Grŵp Gorchwyl mewn perthynas â'r risgiau a'r rhesymau dros danau mewn eiddo domestig. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Diogelu'r amgylchedd adeiledig – Eiddo annomestig | 3.2<br>A yw'r Awdurdod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo'r defnydd o systemau chwistrellu mewn eiddo domestig ac annomestig<br>[Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.] | Mae'r Awdurdod wedi darparu arian cyfatebol ar gyfer Systemau Chwistrellu Domestig yn Ynys Môn a Sir Ddinbych ac wedi sicrhau arian gan Lywodraeth y Cynulliad i weithio gyda Chymdeithas Tai yng Nghonwy er mwyn gosod gwerth £45k o Systemau Chwistrellu Domestig.<br>Gweithio gyda North West Housing Services i osod system chwistrellu ddomestig yn un o'i heiddo risg uchel. | Y posibilrwydd o golli bywydau. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn cynnal ei ddiben strategol ehangach i fuddsoddi mewn gweithgarwch atal tân drwy gymryd ystod eang o gamau gweithredu. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.3<br>Pa waith penodol sy'n cael ei wneud gan y Tîm Atal Tanau Bwriadol i leihau'r risg mewn cyfleusterau addysgol? | Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol i hyrwyddo'r gwaith o osod Systemau Chwistrellu mewn Ysgolion Newydd ac estyniadau tra'n parhau i osod systemau chwistrellu mewn ysgolion sy'n bodoli eisoes. | Y posibilrwydd o golli bywydau. | Canolig | Mae gan yr Awdurdod Dîm Atal Tanau Bwriadol sefydledig sy'n bartneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru. Drwy ddefnyddio ystadegau troseddu a thân maent yn gallu nodi'r safleoedd hynny sydd fwyaf agored i ddifrod. Ar y cyd ag AALlau maent yn cynnal arolygon safle gan roi cyngor priodol ar atal troseddu a sicrhau arian ar gyfer mentrau caledu targed.<br>Maent yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau patrôl ar safleoedd risg uchel ee, Ymgyrch Gingerbread gydag ysgolion a gwarchod ysgolion. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Diogelu'r amgylchedd gwledig: Tanau glaswellt a choedwig bwriadol. | 3.4<br>Beth mae'r Awdurdod wedi'i wneud i newid agweddau pobl ifanc (ee, drwy ddysgu ac ymwybyddiaeth)? | Mae Tîm Atal Tanau Bwriadol ar waith gyda pholisïau penodol yn ymwneud â thanau glaswellt ac eithin.<br>Mae gan Dangerpoint adran benodol i fynd i'r afael â'r risg hon ac mae gan addysgwyr becyn i athrawon a chynllun gwersi a gyflwynir mewn ysgolion y nodwyd eu bod mewn perygl. | Pwysau posibl ar adnoddau a'r posibilrwydd o golli bywydau. | Canolig | Mae'r Cynllun Gwella yn nodi i nifer y 'tanau eilaidd' leihau yn rhannol oherwydd y tywydd ond hefyd oherwydd mentrau addysgol ac ymwybyddiaeth a gynhelir gan y Tîm Atal Tanau Bwriadol megis Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, Crucial Crew, Parth Diogelwch Ysgolion Coedwig. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Diogelu'r amgylchedd gwledig: Rheoli tir nas rheolir. | 3.5<br>Sut mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu â pherchenogion a/neu reolwyr i leihau'r effaith? | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Tîm Atal Tanau Bwriadol gyda Heddlu Gogledd Cymru. | Y posibilrwydd o golli bywyd a niwed economaidd ehangach. | Canolig | Fel y nodwyd uchod mae'r Tîm Atal Tanau Bwriadol wedi gweithio gyda'r heddlu ac Asiantaeth yr Amgylchedd i nodi safleoedd gwledig sydd mewn perygl. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi mabwysiadu **adroddiad Adolygiad Cymheiriaid (2008)** Strategaeth Cymru gyfan ar gyfer Ymchwilio i Dân. (Risg 6) | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Cynlluniau Lleihau Risg a Gwasanaeth.<br>Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub sefydlu Cynlluniau Lleihau Risg gyda'r nod o: | 3.6<br>Lleihau nifer y tanau a digwyddiadau brys eraill. | Noda'r Cynllun Lleihau Risg y saith blaenoriaeth allweddol a gynhwysir yn y fframwaith cenedlaethol.<br>**Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid y canlynol:** Neilltuwyd nifer uwch o adnoddau i ddarparu cudd-wybodaeth weithredol o fewn y gwasanaeth. | Methiant posibl i nodi risgiau a'u lliniaru. | Canolig | Mae Cynllun Gwella 2008-09 yn cynnwys y Cynllun Lleihau Risg sy'n nodi 28 o gamau gweithredu ynghyd â sylwadau ar y cynnydd a wnaed yn eu cylch. Hefyd, cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad o risgiau yn 2003, a ddiweddarwyd yn 2006, lle nodwyd pum 'risg gymunedol' megis Tân a Digwyddiadau Brys, a thair 'Risg Gorfforaethol' megis Cadernid wrth Ddarparu Gwasanaethau. Caiff y Cynllun Lleihau Risg ei adolygu yn 2009. **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid y canlynol:** Câi'r gwasanaeth fudd o gyfleu'r data a ddelir ar hyn o bryd i randdeiliaid allweddol a gallai ystyried materion yn ymwneud â rhyngweithrededd ymhellach. (Risg 9) | Canolig | Adolygiad o'r Cynllun Lleihau Risg wedi'i hwyluso gan Swyddfa Archwilio Cymru? |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.7<br>Lleihau nifer y bywydau a gollir mewn tanau a digwyddiadau brys eraill. | Noda'r Cynllun Lleihau Risg saith blaenoriaeth allweddol a gynhwysir yn y fframwaith cenedlaethol.<br>Rhan fawr o weithgarwch Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân. | Methiant posibl i nodi risgiau a'u lliniaru. | Uchel | Lleihau'r risg o golli bywydau yw blaenoriaeth allweddol y gwasanaeth ac fel y nodwyd, mae cryn ymdrech wedi'i gwneud a chryn fentrau wedi'u cynnal i leihau'r digwyddiadau hyn. Yn 2007-08 cafwyd 1.5 o farwolaethau oherwydd tân fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru o gymharu â ffigur cyfartalog o 1 yng Nghymru. (Uned Ddata Llywodraeth leol (LGDU)), Perfformiad y Gwasanaeth Tân ac Achub 2007-08). Cydnabu'r Gwasanaeth fod hwn yn fater â blaenoriaeth a bydd yn cynnal yr ymdrechion a'r rhaglenni presennol a gynlluniwyd i leihau nifer y marwolaethau oherwydd tân. | Uchel | |
| | 3.8<br>Lleihau nifer yr anafiadau mewn tanau a digwyddiadau brys eraill a'u difrifoldeb. | Noda'r Cynllun Lleihau Risg y saith blaenoriaeth allweddol a gynhwysir yn y fframwaith cenedlaethol. | Methiant posibl i nodi risgiau a'u lliniaru. | Uchel | Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wrthi'n ceisio lleihau nifer yr anafiadau, sy'n parhau'n uwch na'r nifer cyfartalog yng Nghymru yn 2007-08 – sef 11.48 o anafiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth o gymharu â'r nifer cyfartalog yng Nghymru sef 10.5 (LGDU 2007-08). | Uchel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.9<br>Lleihau effaith fasnachol, economaidd a chymdeithasol tanau a digwyddiadau brys eraill. | Noda'r Cynllun Lleihau Risg y saith blaenoriaeth allweddol a gynhwysir yn y fframwaith cenedlaethol. | Methiant posibl i nodi risgiau a'u lliniaru. | Uchel | Ceir tua 27,000 o eiddo annomestig yn ardal y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w ddull o weithredu o ran y rhain o ganlyniad i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Pennwyd targed gwasanaeth o 2,496 o Archwiliadau Diogelwch Tân mewn eiddo annomestig yn 2008-09. Mae nifer yr erlyniadau wedi cynyddu ers i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi'r Gorchymyn. | Canolig | |
| | 3.10<br>Diogelu'r amgylchedd a'r dreftadaeth adeiledig a naturiol. | Noda'r Cynllun Lleihau Risg y saith blaenoriaeth allweddol a gynhwysir yn y fframwaith cenedlaethol. | Methiant posibl i nodi risgiau a'u lliniaru. | Canolig | Cwmpesir fel rhan o ddull mwy cyffredinol yr Awdurdod o weithredu o ran diogelwch tân. | Isel | |
| | 3.11<br>Cynnwys gweithgareddau'r Awdurdod Tân ac Achub yn yr agenda cyfiawnder cymdeithasol ehangach. | Noda'r Cynllun Lleihau Risg y saith blaenoriaeth allweddol a gynhwysir yn y fframwaith cenedlaethol. | Methiant posibl i gyflawni'r agenda gyhoeddus ehangach. | Canolig | Mae'r Cynllun Gwella yn amlinellu rôl ehangach yr Awdurdod yn y gymuned drwy wneud pobl yn fwy diogel, darparu mwy o addysg a chodi ymwybyddiaeth o berygl tanau damweiniol, maleisus a galwadau ffug ac ati. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.12<br>Mynd i'r afael â'r cynigion cydraddoldeb ac amrywiaeth a nodir yn y Fframwaith hwn. | Amlinellir polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Cynllun Gwella presennol ac fe'i cynhwysir yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg er mwyn sicrhau gweithlu mwy amrywiol. | Methiant i gyrraedd safonau cyflogaeth a recriwtio cenedlaethol. | Canolig | Mae'r Cynllun Gwella yn cofnodi amrywiaeth y gweithlu a'r amcanion i wella cydbwysedd yr Awdurdod o ran rhyw, hil, anabledd ac iaith. Er enghraifft, cydnabu'r Cynllun Gwella nad yw anabledd yn atal gyrfa lwyddiannus yn y gwasanaeth tân ac mae polisïau recriwtio a chyflogaeth bellach ar waith i sicrhau nad yw anabledd yn rhwystro cyflogaeth. | Isel | |
| | 3.13<br>Dylai'r Awdurdod werthuso pob ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'i ystyried yn ffurfiol. | Noda'r Cynllun Lleihau Risg risgiau allweddol a'r cynnig i ymgynghori ar risgiau a'u hadolygu yn ystod 2009. | Methiant i wneud gwelliannau. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi bod yn dryloyw iawn wrth ymgynghori ar y cynllun gwella gan gyflwyno adroddiadau manwl i'r Panel Gweithredol a'r Awdurdod llawn. Bwriedir cynnal adolygiad o risgiau cymunedol a chorfforaethol yn 2009 a bydd hyn yn cynnwys cyfnod ymgynghori llawn a thrylwyr | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.14<br>Dylai'r Awdurdod drafod ei gynigion gyda Llywodraeth y Cynulliad ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd ond cyn mabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol er mwyn sicrhau y gellir ystyried barn y Gweinidog wrth lunio'r fersiwn terfynol o'r Cynllun. | Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori â'r Gweinidog ac wedi ystyried ei sylwadau. | Methiant i gynnwys yr agenda wleidyddol ehangach. | Isel | | Isel | |
| | 3.15<br>Dylai'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Lleihau Risg erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. | Cyhoeddwyd Cynllun Gwella yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. | Methiant i gydymffurfio â deddfwriaeth. | Isel | Cyhoeddwyd y Cynllun Gwella a'i roi ar y wefan. Lluniwyd hefyd gynllun Cryno (Rhagfyr 2008). | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Safonau Gwasanaeth. Disgwylia Llywodraeth y Cynulliad y canlynol: | 3.16<br>Yr Awdurdodau Tân ac Achub i gydymffurfio â'r Safonau Gwasanaeth presennol i ymateb i 80 y cant o'r tanau mewn cartrefi yng Nghymru o fewn 10 munud. (FRS/EFR/S/001) | Ers cyhoeddi'r Cynllun Gwella, mae'r Awdurdod wedi cyfrifo perfformiad ar gyfer 2007-08 yn erbyn FRS/EFR/S/001 (90.34 y cant) a FRS/EFR/S/002 (49.44 y cant). Cyflwynwyd y rhain yn fewnol i'r Grŵp Gweithredol (cyfarfod 28 Tachwedd 2008) ac fe'u cyflwynir yn y Cynllun Gwella nesaf erbyn 31 Hydref 2009. | Methiant posibl i gyflawni'r Safonau Cenedlaethol y cytunwyd arnynt. | Uchel | Ni chyflwynodd yr Awdurdod adroddiadau yn erbyn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol FRS/ERF/S/001 a 002 ar gyfer 2007-08.<br>Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gwella yn cyflwyno dangosyddion dirprwyol sy'n nodi'r amser cyfartalog a gymerir i fynd i dân mewn annedd.<br>Oherwydd daearyddiaeth ardal y gwasanaeth, mae'r Cynllun Gwella hefyd yn nodi bod sawl eiddo yn bellach na 10 munud o'r orsaf dân, ac mae'r Awdurdod yn ceisio lleihau'r risg gyffredinol drwy roi mwy o bwyslais ar fentrau diogelwch cymunedol fel y nodir mewn adrannau eraill o'r Cynllun Gwella. | Uchel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.17<br>Os oes mwy o risg i fywyd dylid ymateb yn gynt na phum munud. (FRS/EFR/S/002) | Gweler y sylwadau uchod | Methiant posibl i gyflawni'r Safonau Cenedlaethol y cytunwyd arnynt | Uchel | Gweler uchod. | Uchel | |
| | 3.18<br>O ran yr eiddo sydd y tu hwnt i'r Safon, dylai'r Awdurdod roi gweithgareddau a mentrau ataliol ar waith. (FRS/RRC/S/004) | Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei darged uchelgeisiol o gynnal 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref bob blwyddyn.<br>Mae ffigurau alldro dros dro cyfredol yn dangos bod dros 31,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref wedi'u cyflawni yn 2008-09. | Methiant posibl i gyflawni'r Safonau Cenedlaethol y cytunwyd arnynt. | Canolig | Fel y nodwyd uchod, mae cryn bwyslais wedi ei roi ar Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, yn arbennig ar dargedu cartrefi sy'n agored i ddifrod ac mewn perygl yn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig helaeth y Gwasanaeth. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.19<br>Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau y darperir y lefel briodol o adnoddau i ddigwyddiadau o fewn terfynau amser penodol. | Mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau brys eraill i wella amseroedd ymateb er mwyn cyrraedd safonau Llywodraeth y Cynulliad cyn belled â phosibl. | Methiant posibl i gyflawni'r Safonau Cenedlaethol y cytunwyd arnynt. | Canolig | Bydd y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru o gymorth mawr wrth gydgysylltu a defnyddio adnoddau. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans i wella'r amser a gymerir i gael gwybod am Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd, er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfleusterau neges destun gan y gwasanaeth Ambiwlans i'r Ganolfan er mwyn hysbysu'r gwasanaeth o ddigwyddiadau a gwella'r broses gwneud penderfyniadau o ran p'un a ddylid anfon injan dân. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Plant a Phobl Ifanc: Rhaglenni diogelwch tân/addysg hirdymor gyda phobl ifanc. | 3.20<br>Mae Deddf Plant 2004 a'i dogfennau canllaw statudol cysylltiedig, yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol ac amrywiaeth o bartneriaid i gydweithredu er mwyn gwella lles plant ym mhob ALl.<br>A yw'r Awdurdod wedi ymgysylltu â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc? | Mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu'n llawn â'i Awdurdodau Lleol cyfansoddol i wella lles Plant drwy bob asiantaeth berthnasol ee, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. | Risg bosibl i Blant a Phobl Ifanc. | Canolig | Mae gan yr Awdurdod Bolisi Amddiffyn Plant ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.21<br>Gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Gwaith yn ymwneud â phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, allgáu cymdeithasol a throseddu ymhlith pobl ifanc (Cynlluniau Phoenix a'r Ddraig yn benodol). | Mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod angen ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau gan gynnwys pobl ifanc a'r rhai sy'n agored i niwed.<br>Mae prosiect Firesafe yn enghraifft o ddull proffil uchel wedi'i dargedu o nodi pobl risg uchel yn y gymuned. Darperir offer diogelwch i eiddo yn unol â graddau'r risg a'r angen a aseswyd. | Y posibilrwydd o beidio ag ymgysylltu â grwpiau mewn perygl. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi buddsoddi cryn adnoddau mewn addysg a mentrau codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Atal a chodi ymwybyddiaeth | 3.22<br>Dyletswydd statudol i hyrwyddo diogelwch tân yn genedlaethol drwy Fireflash gan ganolbwyntio ar sectorau sy'n agored i niwed, pobl hŷn a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (ymfudwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches, Sipsiwn, teithwyr).<br>Plant a phobl ifanc (arian ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad) – deunyddiau, gweithgareddau'r cwricwlwm cenedlaethol. | Mae'r Grŵp Addysg Cymru Gyfan (AWEG) yn cysylltu'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae adrannau addysg wedi datblygu pecynnau datblygu Cyfnod Allweddol 1,2,3 a 4 yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd o ran Cyfnod Allweddol 3 a 4.<br>Mae prosiect Phoenix a'r Cydgysylltydd Ieuenctid wedi cyflwyno cynigion i Lywodraeth y Cynulliad am arian parhaus ar gyfer 2009-2012, ac maent yn disgwyl cymeradwyaeth.<br>Mae Dangerpoint wedi parhau i dyfu gyda niferoedd cynyddol yn ymweld â'r cyfleuster. | Y posibilrwydd o golli bywydau. | Canolig | Cynnal 26,504 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn 2007-08 (sef cynnydd o ychydig dros 10,000 ers y flwyddyn flaenorol) drwy ddefnyddio staff anweithredol yn effeithiol i gynnal Archwiliadau.<br>Ceir ffocws gwell ar yr Archwiliadau hyn drwy dargedu cartrefi sy'n agored i ddifrod yn well drwy Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac allbwn Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Lleihau Tanau Bwriadol | 3.23<br>Pa gynnydd y mae timau Atal Tanau Bwriadol yn ei wneud o ran cyflawni amcanion Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru? Hy, canolbwyntio ar danau glaswellt a mynydd). (Arian gan Lywodraeth y Cynulliad hyd at 2011 ar gyfer Timau Atal Tanau Bwriadol). | Mae Tîm Atal Tanau Bwriadol ar waith ac mae amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnal i leihau nifer y tanau bwriadol. | Risg o ddifrod i eiddo a'r amgylchedd a'r posibilrwydd o golli bywydau. | Canolig | Mae gan yr Awdurdod Dîm Atal Tanau Bwriadol ar y cyd sefydledig ar waith sydd wedi llwyddo i leihau nifer y tanau bwriadol bron i 25% yn ystod 2008-09. Mae'r Tîm yn cynnwys swyddogion o'r Awdurdod a Heddlu Gogledd Cymru. | Canolig/Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Diogelu Diffoddwyr Tân wrth gyflawni eu dyletswyddau | 3.24<br>A yw'r Awdurdod yn defnyddio canllawiau trais yn y gwaith (a baratowyd gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân)? | Defnyddir dogfen y Gymdeithas i gofnodi ymosodiadau ar ffurflen Tanau â Diddordeb Arbennig (FOSI) a'i chyflwyno i'r CLG.<br>Mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau'r Polisi Aflonyddwch Sifil a'r Polisi Trais Domestig Drafft.<br>Nid yw'r gwasanaeth wedi llwyddo i gysylltu unrhyw achosion unigol ag unigolion penodol felly nid yw wedi mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol hyd yma. Hysbysir Heddlu Gogledd Cymru o bob achos.<br>Cofnodwyd saith ymosodiad yn erbyn criwiau yng Ngogledd Cymru yn ystod y Flwyddyn Ariannol 2008-09.<br>Nodwyd mai ymosodiadau corfforol a llafar oedd y rhain. | Anafiadau posibl i ddiffoddwyr tân. | Uchel | Astudir adroddiadau ar ddigwyddiadau gan adran cymorth gweithredol y gwasanaeth a defnyddir unrhyw arfer gorau i wella diogelwch ein Diffoddwyr Tân. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.25<br>A yw'n gweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol i ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell? (ee, defnyddio Deddf Gweithwyr Achosion Brys (Rhwystr) 2006). | Mae'r Awdurdod wedi cael cyflwyniadau ar Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol (2007).<br>Aeth Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol i sesiwn friffio ar ofynion y Ddeddf a noddwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. | Risg bosibl o erlyniad o dan y Ddeddf. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi ystyried y Ddeddf yn ei bolisïau ehangach sy'n cwmpasu iechyd a diogelwch. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.26<br>A yw wedi mabwysiadu'r gwersi a ddysgwyd o ran digwyddiadau cenedlaethol? | Mae'r Awdurdod yn casglu gwybodaeth am ddigwyddiadau mewn ardaloedd gwasanaeth eraill. | Risg na chaiff profiadau eu rhannu ac na ddysgir ohonynt. | Canolig | Mae gan yr Awdurdod nifer o enghreifftiau:<br>• Y Grŵp Peryglon Diwydiannol, un o is-grwpiau'r Fforwm Cadernid Lleol, y mae cadeirydd y gwasanaeth yn llunio darn o waith ar y cyd ag Awdurdod yr Heddlu, yr Awdurdod Ambiwlans ac Awdurdodau Lleol ar y broses o weithredu argymhellion Buncefield, yn arbennig y modd y maent yn effeithio ar safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr. Arweiniodd digwyddiad Swydd Hertford (Llys Harrow) at:<br>– 1. Adolygiad o Bolisi Risg Uchel Gogledd Cymru; a<br>– 2. Mwy o Hyfforddiant Asesiad Risg Dynamig i bob gorsaf yn ardal y gwasanaeth.<br>• Mae digwyddiad (Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffordd) yn Swydd Hertford wedi arwain at adolygiad o'r polisi ymateb i Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd.<br>• Mae digwyddiad yn Swydd Warwick wedi arwain at weithredu Polisi sy'n cefnogi gwaith casglu Cudd-wybodaeth Gweithredol. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Lleihau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd | 3.27<br>A yw'r Awdurdod yn Aelod o Fforwm Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru? | Mae Rheolwr Diogelwch Cymunedol yn cynrychioli'r gwasanaeth. | Methiant posibl i ddysgu o ddigwyddiadau y tu allan i ardal y gwasanaeth. | Isel | Rhennir materion a godwyd fel rhan o'r fforwm diogelwch ar y ffyrdd yn unol ag Ardaloedd Gorchymyn Sirol. | Isel | |
| | 3.28<br>Pa waith y mae'r Awdurdod wedi'i wneud sy'n cyfrannu at yr agenda atal Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd? | Mae'r Awdurdod yn rhan o Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru gyfan y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>**Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** Mae cryn fuddsoddiad wedi'i wneud gan y gwasanaeth i liniaru effeithiau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn yr ardal a wasanaethir ganddo. (Risg 19) | Risg bosibl o anafiadau a marwolaethau oherwydd Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadau Strategaeth Cymru gyfan ac mae'n cefnogi'r strategaeth diogelwch ar y ffyrdd genedlaethol a Grŵp Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd y Prif Swyddog Tân. Mae pob injan rheng flaen bellach yn cario offer achub hydrolig. Mae marwolaethau ac anafiadau oherwydd Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd yn Risg Gymunedol a nodwyd. | Isel | Cyfleu'r Strategaeth Lleihau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd i bob aelod o staff perthnasol fel y nodwyd gan Dîm Asesu Cymheiriaid 2008. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.29<br>Lleihau damweiniau ar y ffordd (targedau lleol?) | Mae'r Awdurdod yn ceisio cyflawni targedau Strategaeth Cymru Gyfan. | Risg bosibl o anafiadau a marwolaethau oherwydd Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi rhoi amrywiaeth o fentrau lleol ar waith i fynd i'r afael â ffigurau Adrannau Diogelwch ar y Ffyrdd yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys Pass Plus Cymru, dwy Arddangosfa yn Sioe Deithiol Impact a'r Fenter Diogelwch ar y Ffyrdd yn Dangerpoint. | Isel | |
| Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio Diogelwch Tân (Gorchymyn Diogelwch Tân) 2005. | 3.30<br>A yw'r Awdurdod yn defnyddio Canllawiau Asesu Risg Diogelwch Tân y Llywodraeth? | Rhoddodd yr Awdurdod ddull newydd o lunio gorchmynion diogelwch ar waith er mwyn adlewyrchu'r newid mewn pwyslais yn y gorchymyn newydd. | Methiant i gydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol. | Canolig | Archwiliodd yr Awdurdod 583 o safleoedd yn 2007-08 gan arwain at roi 52 o hysbysiadau gorfodi a 10 hysbysiad gwahardd. 2,496 yw'r targed ar gyfer 2008-09. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.31<br>A yw'r Awdurdod yn gweithio gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill i ddatblygu dull cyffredin o gyflawni eu dyletswyddau o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân? | Cydweithio â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru i ddatblygu Hyfforddiant a Pholisi Gorfodi er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. | Methiant i ddysgu o brofiadau gwasanaethau eraill. | Isel | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall lle y bo'n briodol. | Isel | |
| Arwyddion Galwadau Tân Awtomatig: Arwyddion galwadau tân diangen mewn eiddo annomestig | 3.32<br>A yw'r Awdurdod yn dilyn canllawiau (cylchlythyr 06 Cymru ar leihau nifer y Galwadau Tân Diangen ac ymateb iddynt)? | Mae Papur Sefyllfa yn cael ei baratoi ar gynlluniau'r Awdurdod i ymdrin â Galwadau Tân Awtomatig yn y dyfodol. Cyflwynir Adroddiad i Fforwm Tân ac Achub Cymru ar 23 Chwefror 2009. | Risg bosibl o wastraffu adnoddau wrth ymdrin â Galwadau Tân Awtomatig. | Canolig | **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod angen datblygu strategaeth ar gyfer y gwasanaeth cyfan er mwyn ategu llwyddiannau lleol o ran lleihau galwadau diangen. (Risg 18) | Canolig | Mae angen i'r gwasanaeth fynd ar drywydd y 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd yn yr adolygiadau cymheiriaid. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.33<br>A yw'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau eraill i leihau galwadau ffug, arwyddion diangen a chyflwyno cofnod o'r bobl sy'n ffonio a'r eiddo sy'n creu'r galw mwyaf? | Mae gweithdrefnau Herio Galwadau ar waith ynghyd ag archwiliadau o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân.<br>Mentrau lleol gan Reolwyr Sirol i fynd i'r afael â safleoedd penodol sy'n ffonio'n aml. | Risg bosibl o fynd i safleoedd yn ddiangen. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn ceisio cyflawni argymhellion canllawiau Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.34<br>Pa faterion sydd gan y gwasanaeth yn ymwneud â Galwadau Tân Awtomatig a pha gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â hwy? | Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau sydd wedi lleihau nifer y Galwadau Tân Awtomatig ym mhob un o'r saith ardal gorchymyn yn y sir gyda mentrau lleol pellach i ymdrin â Galwadau Tân Awtomatig.<br>Mae trefniadau Rheolwyr Sirol Lleol ar waith i ddelio â'r 10 troseddwr mwyaf yn yr ardal Gorchymyn | Risg bosibl o Alwadau Tân Awtomatig yn lleihau effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaeth | Canolig | Mae nifer y Galwadau Tân Awtomatig a gofnodwyd yn 2007-08 yn is na'r nifer cyfartalog yng Nghymru. Noda FRS/RRC/C/022 0.97 o alwadau ffug maleisus fesul 1,000 o'r boblogaeth o gymharu ag 1.59 yng Nghymru. Dengys data arall yn ymwneud â galwadau tân awtomatig fod y gwasanaeth yn perfformio'n well na'r cyfartaledd yng Nghymru.<br><br>Fodd bynnag, dengys gwybodaeth leol raddau'r her – ymatebodd Gwasanaeth Tân Bangor i 157 o arwyddion galwadau ffug o Brifysgol Bangor yn 2007-08 – sy'n dangos bod angen rhoi sylw cyson i'r mater hwn. | Canolig | |
| Ymchwilio i dân | 3.35<br>Sut mae'r Awdurdod yn cydweithio i rannu profiad, costau, arfer gorau a sicrhau dull gweithredu cyson? | Datblygwyd Strategaeth Ymchwilio i Dân Cymru Gyfan. Ceir cytundeb i gynorthwyo gwasanaethau tân ac achub eraill gydag Ymchwiliadau difrifol a hwy i Dân. | Risg bosibl na wneir gwelliannau i ddulliau cydweithio. | Canolig | Datblygwyd strategaeth hyfforddi ar y cyd a'i rhoi ar waith. Mae pecyn Hyfforddi Cymru gyfan ar gyfer lefel 1 a 2 wrthi'n cael ei drafod hefyd. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Cyd-ymateb (cynlluniau ymatebwyr cyntaf) | 3.36<br>A oes Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyfredol ar waith gyda'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans? | Mae'r Awdurdod wedi nodi yn ei Gynllun Gwella nad yw'n mynd ar drywydd dulliau 'cyd-ymateb' yn weithredol, ond gellir eu hailystyried fel rhan o gynlluniau lleihau risg yn y dyfodol. | Risg bosibl y caiff cyfleoedd i wella perfformiad eu colli. | Uchel | Nid yw'r mater yn ymwneud â 'chyd-ymateb' yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Er bod y rhan fwyaf o injans yn cario cyfarpar ocsigen a rhoddir hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio, nid yw'n ymwneud â mentrau cyd-ymateb penodol. | Uchel | |
| | 3.37<br>Sut mae'r Awdurdod yn nodi meysydd y gellid eu cynnwys mewn cynllun cyd-ymatebwr? | Gweler uchod. | | | Gweler uchod. | | |
| | 3.38<br>Sut mae'n gwerthuso buddiannau'r cynlluniau presennol sydd ar waith ganddo? | Gweler uchod. | | | Gweler uchod | | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Ymchwil | 3.39<br>A yw'r Awdurdod wedi cydweithio ar brosiectau ymchwil a datblygu yn ymwneud â threialon technoleg a chyfarpar, cynllunio tactegol ac adolygiadau polisi? | Ydy. Defnyddiwyd canlyniadau treialon gan Wasanaethau Tân ac Achub eraill wrth gaffael Cyfarpar Anadlu er mwyn dylanwadu ar y penderfyniad.<br>Treialwyd Cyfarpar Torri Holmatro gan Wasanaeth Tân ac Achub yn Ne-orllewin Lloegr.<br>Datblygwyd CTY gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru ac ardaloedd eraill o'r DU.<br>Ymhlith yr enghreifftiau o ddatblygiadau ar y cyd mae nodi Cyfarpar Diffodd Tân ar gyfer Cymru gyfan a'u cyflwyno. | Diffyg cydweithio posibl a allai olygu bod yr Awdurdod yn gwneud llai o gynnydd na'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn cydweithio â'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru a thu hwnt. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| Ystadegau | 3.40<br>A yw'r Awdurdod wedi gweithredu'r System Cofnodi Digwyddiadau yn llawn (y disgwyliwyd ei wneud erbyn mis Ebrill 2009). | Sicrhawyd cymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad i gyflogi clercod mewnbynnu data ar gyfer y 12 mis cyntaf er mwyn cynorthwyo swyddogaethau Rheoli yn ystod y cam cychwynnol. Rheoli llinell drwy'r Rheolwr Rheoli – datblygwyd disgrifiadau swydd, a hysbysebwyd y swyddi. | Risg bosibl na chaiff data ei gofnodi a'i ddefnyddio. | Canolig | Datblygwyd Strategaeth i weithredu System Cofnodi Digwyddiadau. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 3: Gweithio Mewn Partneriaeth: Atal, Diogelu ac Ymateb** | | | | | | | |
| | 3.41<br>A yw'r Awdurdod yn darparu data i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol fel sy'n ofynnol gan Adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 2004. | Anfonir data digwyddiadau (FDR1, 2, 3) i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn rheolaidd.<br>Anfonir data dangosyddion i Lywodraeth y Cynulliad hefyd drwy broses cyflwyno ffurflenni flynyddol ac eithrio FRS/EFR/S/001 a 002 y llynedd. | Risg bosibl na chaiff data ei gofnodi a'i ddefnyddio. | Canolig | Cesglir data perthnasol ar gyfer y flwyddyn 2009-10. | Canolig | |
| | 3.42<br>Sut mae'r Awdurdod yn defnyddio ystadegau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i lywio'r broses gynllunio? | Cyfeirir at ystadegau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Chymru yn ad hoc wrth wneud penderfyniadau (e.e. proses Cynllun Lleihau Risg). | Risg bosibl na chaiff data ei gofnodi a'i ddefnyddio. | Isel | Yn ogystal â'r Cynllun Lleihau Risg, defnyddir data lleol i'w gymharu â'r 'grŵp teuluol'. | Isel | |
| | 3.43<br>A yw'r Awdurdod wedi rhoi polisi amgylchiadau risg ar waith. | Gweler 5.8 isod. | | | | | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 4: Cydweithio'n Effeithiol** | | | | | | | |
| Diogelwch Cymunedol drwy Gydweithio | 4.1<br>Sut mae'r Awdurdod wedi cynyddu ei weithgarwch cydweithredol ag eraill yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol mewn perthynas â diogelwch cymunedol? | Mae gan yr Awdurdod strwythur rheoli cadarn ar waith gyda chysylltiadau da â diogelwch cymunedol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:<br>• cydweithio ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill;<br>• cyfuno adnoddau, er enghraifft Heddlu Gogledd Cymru; a<br>• chyfrannu at waith Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ôl y galw | Methiant posibl i gyfrannu at yr agenda cyhoeddus ehangach. | Canolig | Rheolir pob ardal gorchymyn sirol gan Reolwr Diogelwch Cymunedol sydd wedi datblygu cysylltiadau cadarn â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a mentrau diogelwch lleol eraill. Mae gwaith Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân hefyd wedi arwain at ddull mwy cymunedol ac sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion o ymdrin â diogelwch cymunedol. **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** Mae systemau rheoli perfformiad gwell wedi arwain at fwy o weithgarwch diogelwch cymunedol a chydgysylltu gweithgareddau a dargedir. (Risg 5) | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 4: Cydweithio'n Effeithiol** | | | | | | | |
| Datblygu a chyflawni polisi Cymru gyfan | 4.2<br>A yw'r Awdurdod yn datblygu ac yn cyflawni polisïau ar gyfer Cymru gyfan drwy gydweithio ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill? | Cynrychiolir yr Awdurdod mewn sawl Grŵp yng Nghymru, ee, ORM Liaison, Fframwaith Rheoli Perfformiad Cymru Gyfan (AWPMF), Strategaeth Adnoddau Dynol Cymru Gyfan, Recriwtio Cymru Gyfan | Y posibilrwydd na chaiff polisïau Cymru gyfan eu datblygu. | Canolig | Ymhlith yr enghreifftiau presennol mae ORM Liaison, AWPMF, Strategaeth Adnoddau Dynol Cymru Gyfan, Recriwtio Cymru Gyfan<br>Fforwm Gweithrediadau Cymru.<br>Polisi Dŵr Cymru Gyfan (Drafft).<br>Mae enghreifftiau o Gaffael ar gyfer Cymru gyfan yn cynnwys Cyfarpar Anadlu. | Isel | |
| Rhannu a chyfuno adnoddau | 4.3<br>Rhannu a chyfuno adnoddau dynol a ffisegol yr Awdurdod mewn modd sy'n *cynyddu gallu ac adnoddau ac effeithlonrwydd* y gellir eu hailgyfeirio yn unol â'r risg. | Mae'r Awdurdod yn sicrhau bod rhannu a chyfuno adnoddau ag asiantaethau eraill yn cynnig gwerth am arian ac yn cynyddu effeithlonrwydd. | Methiant i gynyddu gallu ac adnoddau ac effeithlonrwydd drwy rannu a chyfuno adnoddau. | Canolig | Ymhlith yr enghreifftiau o'r modd y mae'r Awdurdod yn rhannu ac yn cyfuno adnoddau mae:<br>• y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd ar gyfer ymdrin â galwadau gyda Heddlu Gogledd Cymru;<br>• defnyddio trefniadau Caffael Heddlu Gogledd Cymru; ac<br>• mae'r Awdurdod yn darparu Hyfforddiant Cymorth Cyntaf i Heddlu Gogledd Cymru yn gyfnewid am hyfforddiant gyrru i Swyddogion gan Heddlu Gogledd Cymru. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 4: Cydweithio'n Effeithiol** | | | | | | | |
| | 4.4<br>Gweithio'n llawn gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill i greu cymunedau diogelach. | Mae'r Awdurdod yn ceisio ffyrdd o wella ei berfformiad drwy gydweithio. | Methiant posibl i wella cymunedau lleol. | Canolig | Er enghraifft:<br>• Cydweithio ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill.<br>• Cyfuno adnoddau, er enghraifft Heddlu Gogledd Cymru.<br>• Cyfrannu at waith Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ôl y galw.<br>• Tîm Atal Tanau Bwriadol.<br>• Diogelwch ar y Ffyrdd (Sioe deithiol effaith) gydag Adran Diogelwch ar y Ffyrdd yr ALI.<br>• Prosiect Beicio Diogel.<br>• Diwrnodau Gweithredu ar yr Amgylchedd amlasiantaethol. | Isel | |
| Caffael | 4.5<br>A yw'r Awdurdod wedi cyrraedd lefel 3 o'r fframwaith asesu caffael cynaliadwy (a luniwyd gan Gwerth Cymru)? Os na, a yw'n bwriadu ei chyrraedd erbyn 2009? | Nid yw'r Awdurdod wedi cyrraedd y lefel hon. | Methiant i gydymffurfio â'r fframwaith. | Canolig | Mae'r Awdurdod wrthi'n trafod ag Adran Gaffael Heddlu Gogledd Cymru i weld p'un a all wneud hyn ar ran y gwasanaeth. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 4: Cydweithio'n Effeithiol** | | | | | | | |
| | 4.6<br>A yw'r Awdurdod wedi datblygu cynlluniau gweithredu i roi'r themâu cyflawni a nodwyd yn y Strategaeth Gaffael ar gyfer Cymru ar waith? | Fel uchod | | | | | |
| | 4.7<br>A yw'r Awdurdod yn defnyddio Firebuy? | Mae contractau penodol yn bodoli o dan Firebuy, ac ymhlith yr enghreifftiau mae trafodaethau â'r Prosiect Dillad Integredig a phrynu'r wisg wrth-drywanu (Stabfast). | Methiant posibl i gyflawni arbedion. | Isel | Adolygiad parhaus o'r broses brynu yn ôl y galw. | Isel | |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 4.8<br>Sut mae'r Awdurdod wedi cyfrannu at Gymru gynaliadwy drwy ddangos cydymffurfiaeth statudol â materion amgylcheddol a chyfrifoldeb corfforaethol drostynt? | Mae'r Awdurdod yn gweithredu rhaglen y Ddraig Werdd a mentrau eraill. | Methiant posibl i gyfrannu at fentrau cyhoeddus ehangach. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn ceisio cyrraedd lefel 1 o raglen y Ddraig Werdd. Yn ogystal, nododd Adolygiad Rheoli Fflyd Swyddfa Archwilio Cymru rai meysydd o arfer amgylcheddol da. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 4: Cydweithio'n Effeithiol** | | | | | | | |
| | 4.9<br>A yw'r Awdurdod wedi ystyried ei weithgareddau ei hun ac a yw'n anelu at leihau eu heffaith drwy achub ar gyfleoedd i wella'r defnydd a wneir o ynni ymhob rhan o'i ystâd a'i fflyd gerbydau? | Mae'r Awdurdod yn adolygu ei weithrediadau a'i ystâd. | Methiant posibl i gyfrannu at fentrau cyhoeddus ehangach | Canolig | Fel y nodwyd uchod, nododd yr adolygiad rheoli fflyd rai meysydd o arfer da ac mae'r grŵp rheoli cyfleusterau ar y cyd wrthi'n asesu'r defnydd a wneir o ynni mewn adeiladau fel rhan o'i gynllun rheoli asedau ehangach. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 4: Cydweithio'n Effeithiol** | | | | | | | |
| | 4.10<br>A yw'r Awdurdod yn cyfrannu at waith amlasiantaethol fel rhan o gyrff megis Fforwm Cymru ar gyfer Rheoli Tanau Cefn Gwlad? | Mae'r Awdurdod yn cynnal amrywiaeth o fentrau. | Methiant posibl i gyfrannu at fentrau cyhoeddus ehangach. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn cydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn datblygu protocolau i leihau'r risg o dân yng nghefn gwlad.<br>Gweithio gyda Wardeniaid Cefn Gwlad awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r modd y mae tanau damweiniol yn dechrau yng nghefn gwlad a rheoli mesurau ar gyfer llosgi rheoledig.<br>Mae gan Gyd-grŵp Tanau Bwriadol Cymru gynrychiolydd yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru.<br>Ceir cydgysylltydd cenedlaethol sy'n gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 4: Cydweithio'n Effeithiol** | | | | | | | |
| Rhannu Gwybodaeth rhwng Asiantaethau | 4.11<br>Sut mae'r Awdurdod yn defnyddio gwybodaeth a geir gan sefydliadau eraill ac a rennir â hwy i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau ymateb ac atal? | Mae gan yr Awdurdod brotocol rhannu data ag ystod o ddarparwyr gwasanaethau lleol.<br>Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) Llywodraeth y Cynulliad yn llawn. | Methiant posibl i ddarparu gwasanaeth gwell. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar brotocol rhannu data gyda Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Ambiwlans, tair Ymddiriedolaeth y GIG a'r chwe awdurdod unedol. Bydd hyn yn ei alluogi i dargedu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref gyda phobl y nodir eu bod yn agored i niwed gan asiantaethau eraill. | Isel | |
| | 4.12<br>A oes cytundebau rhannu data ffurfiol ar waith ar gyfer pob set o ddata? | Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar brotocol rhannu data. | Methiant posibl i ddarparu gwasanaeth gwell. | Canolig | Gweler uchod. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Cynllunio Wrth Gefn | 5.1<br>A oes gan yr Awdurdod drefniadau rheoli parhad busnes cadarn ac effeithiol ar waith ar gyfer pob swyddogaeth strategol allweddol (ee, rheoli, TGCh, gweithrediadau, cyflogres ac ati)? | Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd tuag at gwmpasu trefniadau parhad busnes yn effeithiol. | Methiant posibl i ddarparu'r gwasanaeth. | Uchel | Mae rhai cynlluniau parhad busnes ar waith**. Nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008)** y gellid gwneud cynnydd pellach o ran ymwybyddiaeth staff mewn meysydd allweddol (ee, Rheoli), profi cynlluniau'n drylwyr a datblygu polisi rheoli risg.<br>(Risg 7 a 17) | Canolig | Adolygu cynnydd o ran y broses o roi 'meysydd i'w datblygu' y Tîm Asesu Cymheiriaid ar waith. |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Cadernid | 5.2<br>Sicrhau cadernid sy'n ddigonol ar gyfer y math o fygythiadau sy'n wynebu Cymru sydd hefyd yn gallu cyfrannu at gadernid cenedlaethol y DU. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei rôl o ran cadernid cenedlaethol ehangach. | Methiant posibl i gyfrannu at gadernid cenedlaethol. | Canolig | Mwy o gadernid o ran Gweithredu'r Ganolfan Reoli ar y Cyd â Heddlu Gogledd Cymru.<br>Ar sail Cymru gyfan, mae gan y tri Awdurdod bellach yr un system ar waith ar gyfer ein holl adnoddau.<br>Mae'r tri Awdurdod yn gweithio tuag at gyflwyno'r system Airwave Communications. Bydd y mentrau hyn yn cynyddu cadernid yn lleol ac yn genedlaethol.<br>Mae'r defnydd o Bympiau Cyfeintiau Uchel (HVPau) ac Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau yng Ngogledd Cymru eisoes wedi dangos cyfraniad i Gadernid Cenedlaethol drwy ategu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer defnyddio adnoddau. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| | 5.3<br>Sicrhau bod strategaethau caffael yn cyflawni effeithlonrwydd o ganlyniad i fwy o bŵer pwrcasu. Mae agweddau allweddol yn cynnwys ystyried/defnyddio Gwerth Cymru a Firebuy, hyblygrwydd o ran cefnogi gweledigaeth y siarter 'Agor Drysau' a chanolbwyntio ar gynaliadwyedd, gwerth am arian a chadernid. | Er nad yw'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad o reolau sefydlog eto, mae'n cymryd rhan weithredol mewn mentrau cenedlaethol. | Methiant i fynd i'r afael â materion caffael. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn defnyddio Gwerth Cymru ac mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys Firebuy ar gyfer proses gaffael y Llwybr Gofal Integredig a gynllunnir ar gyfer 2010.<br>Mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio'r siarter Agor Drysau wrth brynu yn y dyfodol. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| | 5.4<br>Datblygu Polisïau Lleol | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu polisi lleol o ran amgylchiadau risg. Mae'r Cynllun Gwella yn nodi bod polisi amgylchiadau risg ar waith a'i fod wedi cael ei dreialu'n weithredol. | Methiant i gynnal ymateb gweithredol. | Canolig | Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi datblygu cynllun 'gorsaf allweddol' i wella parhad y gwasanaeth o dan amgylchiadau eithafol. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Cyd-gymorth | 5.5<br>A oes gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol i gefnogi Awdurdodau eraill pa fo angen? | Mae cytundebau ffurfiol Adran 13 ac Adran 16 wedi'u llofnodi â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Amwythig.<br>Mae trefniadau lleol ar waith ar gyfer dyrannu adnoddau y tu hwnt i ardaloedd cyfagos y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn ôl yr angen. | Methiant posibl i gydgysylltu ag asiantaethau eraill. | Canolig | Nid yw cytundeb Swydd Gaer wedi'i gymeradwyo hyd yn hyn. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| | 5.6<br>Pa mor rhyngweithredol yw arferion gwaith cyfredol yr Awdurdod? | Mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol wedi'u datblygu, ac yn cael eu datblygu o hyd, er mwyn sicrhau cysondeb â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill.<br>Mae cytundebau Adran 13 ac Adran 16 yn ceisio sicrhau bod ymgynghoriad yn digwydd i sicrhau bod arferion gwaith yn rhyngweithredol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. | Methiant posibl i gydgysylltu ag asiantaethau eraill. | Canolig | Defnyddir arferion ac ymarferion i sicrhau cysondeb. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| | 5.7<br>A yw'r Awdurdod wedi datblygu trefniadau i gefnogi'r broses arfaethedig o ddefnyddio staff gweithredol ar lefelau Gorchymyn Aur ac Arian ledled Cymru ac ar draws ffiniau? | Mae'r Awdurdod wedi cynnal ystod o adolygiadau o weithdrefnau gweithredol a chymwyseddau. | Methiant posibl i ddarparu'r gwasanaeth. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi cynnal archwiliadau o rolau a chymwyseddau allweddol ar bob lefel, gan gynnwys arian ac aur. **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** mae proses ddadfriffio wedi'i rhoi ar waith i ganfod a throsglwyddo canlyniadau, a bydd datblygiad y prosesau hyn yn caniatáu i'r sefydliad ddysgu o brofiadau ei hun. Yn ogystal, nododd y Tîm bum agwedd i'w datblygu ymhellach. (Risg 16) | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Achub o Lifogydd a Dŵr | 5.8<br>I ddechrau, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi p'un a ddylai hwn fod yn swyddogaeth statudol ar gyfer Awdurdodau. | Pympiau Cyfaint Uchel i'w dosbarthu yn lleol ac yn genedlaethol.<br>Gallu o ran Dŵr Lefel 2 gyda chwch heb fodur.<br>Gallu o ran Lefel 1 ar gyfer y criwiau i gyd. Mae'r Awdurdod hefyd yn cyfrannu at Strategaeth ddŵr Cymru gyfan sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth y Cynulliad mewn ymateb i Adroddiad Pitt. | Methiant i gynnal ymateb gweithredol. | Uchel | Mae'r Cynllun Gwella yn nodi bod polisi amgylchiadau risg wedi'i sefydlu a'i dreialu'n weithredol. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cynllun 'gorsaf allweddol' i wella parhad y gwasanaeth o dan amgylchiadau eithriadol. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Deddf Argyfyngau Sifil 2004 | 5.9<br>A yw'r Awdurdod yn cymryd rhan ym mhob Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn ei ardal? | Mae'r Awdurdod yn ymatebwr Categori 1 ac mae'n cefnogi Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (y Fforwm) Gogledd Cymru ac yn cyfrannu ato, er enghraifft drwy gadeirio is-grwpiau'r Fforwm ac ariannu a hwyluso rôl cydlynydd y Fforwm sy'n sicrhau bod y Fforwm yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. | Methiant posibl i gyflawni gofynion deddfwriaethol | Canolig | O ran ei barhad busnes ei hun, mae'r Gwasanaeth wedi creu cofrestr risg gorfforaethol gyfunol sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu perthnasol sydd wedi'u hadolygu a'u diweddaru drwy'r Fforwm. Fodd bynnag, mae angen gwneud cynnydd pellach, fel y nodwyd gan y **Tîm Asesu Cymheiriaid** (risg 7 a 17). | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| | 5.10<br>A oes trefniadau ar waith i gydweithredu â sefydliadau eraill sy'n ymateb yn yr un ardal Fforwm? | Mae gan y Fforwm drefniadau hirsefydlog â phartneriaid allweddol eraill. | Methiant posibl i gyflawni gofynion deddfwriaethol. | Canolig | Mae ystod eang o bartneriaethau ar waith ynghyd â chytundebau cyd-gymorth gyda gwasanaethau eraill. Mae'r Awdurdod bellach yn gweithredu ystafell gyfathrebu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r nod o wella gallu'r Awdurdod i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau ac argyfyngau. | Isel | |
| | 5.11<br>A yw'r Awdurdod yn cymryd rhan yn Fforwm Cymru Gydnerth? | Caiff y tri gwasanaeth tân eu cynrychioli gan Brif Swyddog Tân Gogledd Cymru. | Risg bosibl o ganlyniad i beidio â chymryd rhan. | Isel | Mae'r Awdurdod yn gallu cael dylanwad ar Fforwm Cymru Gydnerth. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Dimensiynau Newydd | 5.12<br>A yw'r Awdurdod yn ymrwymedig i gynnal ei allu o ran Dimensiynau Newydd? | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ei asedau Dimensiynau Newydd. | Risgiau posibl o ran gallu i reoli asedau dimensiynau newydd. | Canolig | **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** mae polisi ar gyfer dosbarthu asedau dimensiynau newydd wedi'i ddatblygu, a chaiff ei ddeall o fewn y sefydliad. (Risg 10). | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| | 5.13<br>Pa drefniadau sydd ar waith gan yr Awdurdod i fodloni ei rwymedigaethau o dan Orchymyn Argyfwng Cymru 2007? | Mae'r Awdurdod wedi darparu ar gyfer cael gwared ar halogion 'Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear' oddi ar bobl mewn argyfwng, ac i gadw unrhyw ddŵr a ddefnyddir am gyfnod rhesymol, gan sicrhau y cymerir camau rhesymol i atal neu leihau niwed difrifol i'r amgylchedd.<br>Darparu hyfforddiant i sicrhau y cynhelir cymwyseddau at y diben.<br>At ddibenion digwyddiad lle bydd adeilad neu strwythur arall yn cwympo neu argyfwng sy'n ymwneud â thrên, tram neu awyren lle bydd angen defnyddio adnoddau'r Awdurdod y tu hwnt i'w waith beunyddiol, darparwyd ar gyfer hynny drwy ddefnyddio'r cytundebau Cyd-gymorth.<br>Ni ddarperir offer ar gyfer Chwilio ac Achub Trefol yn ardal Gogledd Cymru, er bod unigolion wedi cael eu hyfforddi.<br>Mae Pympiau Cyfaint Uchel ar gael yng Ngogledd Cymru ac maent wedi'u defnyddio'n lleol ac yn genedlaethol mewn ymateb i achosion o lifogydd eang. | Risg bosibl i beidio â bodloni deddfwriaeth genedlaethol. | Canolig | Mae polisi Dimensiwn Newydd wedi'i lunio sy'n cynnwys polisïau dyrannu. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau lles ar gyfer y criw.<br>Mae aelodau etholedig wedi'u cynnwys mewn diwrnodau ymwybyddiaeth. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| | 5.14<br>A yw asedau Dimensiwn Newydd wedi'u hintegreiddio'n llawn ym mhrotocolau ymateb gwasanaeth yr Awdurdod? | Mae asedau Dimensiwn Newydd wedi'u hintegreiddio'n effeithiol yng ngweithdrefnau ymateb yr Awdurdod. | Methiant posibl i reoli'r asedau Dimensiwn Newydd. | Canolig | Mae'r broses o ddosbarthu asedau Dimensiwn Newydd wedi'i threialu a'i rhoi ar waith a mabwysiadwyd dull 'dysgu gwersi'. Cytunwyd ar gytundebau cyd-gymorth gan ddau wasanaeth cyfagos. | Isel | |
| | 5.15<br>A yw'r Awdurdod yn cydweithredu ac yn cymryd rhan yn y trefniadau Rheoli Gallu Hirdymor ar gyfer y gwaith o gynnal a chadw, atgyweirio a disodli cerbydau a chyfarpar Dimensiwn Newydd sydd yn eu meddiant? | Ar hyn o bryd yn rhan o'r trefniadau Rheoli Gallu Hirdymor mewn modd ad hoc. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith fod Asedau Dimensiwn Newydd o dan y rhaglen Cymunedau a Llywodraeth Leol ar hyn o bryd.<br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar yr opsiwn a ffafrir o ran cofrestru i Reoli Gallu Hirdymor neu ymuno ag opsiwn Lloegr. | Diffyg cyd-weithio posibl mewn mentrau cenedlaethol yn arwain at risg uwch i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. | Canolig | Sefydlwyd Pwyllgor Pontio yn cynnwys Prif Reolwyr o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, i ddatblygu'r dull gweithredu Rheoli Gallu Hirdymor. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Firelink | 5.16<br>Sut mae'r Awdurdod wedi cydweithredu â Thîm Rheoli Prosiect Firelink Llywodraeth y Cynulliad ac Airwave Solution Ltd i helpu i gyflwyno Firelink?<br>(*Bwrdd Cyflwyno Rhanbarthol Firelink Cymru a'r Bwrdd Rheoli Newid Rhanbarthol fydd y fforwm ar gyfer monitro a gwerthuso'r broses o gyflwyno Firelink i Gymru.)* | Mae'r Awdurdod wedi cael cymeradwyaeth o ran trwydded TEA2 (algorithm amgryptiad safonol) sy'n sicrhau bod Firelink yn cael caniatâd i barhau â'r broses o osod Airwave yn yr Ysatell Reoli ar y Cyd newydd. | Methiant posibl i ymateb i fentrau cenedlaethol. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi symud yn llwyddiannus i Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd. Gwnaeth **y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008)** gyfres o argymhellion ar gyfer gwella i sicrhau cadernid y gwasanaeth a systemau dyrannu newydd (Risg 12 a 13). | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5: Cadernid** | | | | | | | |
| Ystafelloedd Rheoli (cadernid a rheolaeth deirffordd) | 5.17<br>Sut mae Awdurdodau wedi mynd i'r afael â'r broses o archwilio partneriaethau hirdymor a threfniadau cydweithio â gwasanaethau brys eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol a gwerth gorau? (Dylai'r trefniadau ddarparu ar gyfer cadernid mewn perthynas â gwaith gorchymyn, rheoli, dyrannu a threfniadau ‘wrth gefn’ Cymru gyfan drwy integreiddio a chyd-gymorth). | Mae Canolfan Gyfathrebu ar y Cyd newydd wedi'i datblygu gyda Heddlu Gogledd Cymru a fydd yn gwella cadernid a'r broses o ymateb i ddigwyddiadau yn ardal yr Awdurdod ac yn darparu ar gyfer cadernid 'Cymru gyfan' ehangach. | Methiant posibl i gynnal swyddogaethau rheoli. | Uchel | Dechreuwyd gweithredu canolfan gyfathrebu ar y cyd newydd ym mis Hydref 2008. Mae hyn yn drefniant ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru. Yn y tymor hwy, disgwylir i'r gwasanaeth ambiwlans ddefnyddio'r ganolfan gyfathrebu.<br>Gwnaeth **y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008)** nifer o argymhellion i gefnogi cadernid y swyddogaeth Reoli (Risgiau 12 a 13).<br>**Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid hefyd:** mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr angen i ddechrau adolygu ei weithdrefnau Rheoli arbennig (Risg 14).<br>Mae’r Awdurdod Tân ac Achub yn cymryd rhan weithgar yn Rhaglen Cymru Gydnerth, rhaglen sy’n cwmpasu Cymru gyfan, i gydgysylltu pob un o’r tair canolfan reoli Tân ac Achub. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| Amrywiaeth o fewn y Gweithlu | 6.1<br>A yw'r Awdurdod yn datblygu gweithlu amrywiol sydd â chyfle cyfartal yn barhaus?<br>Recriwtio. | Mae ymrwymiad yr Awdurdod i amrywiaeth yn werth craidd. | Posibilrwydd nad yw'r gweithlu'n adlewyrchu ei gymuned leol. | Canolig | Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio gadarnhaol o fewn y gwasanaeth.<br>Mae'r cyfle i ddatblygu yn cael ei gynnig i bob aelod o staff drwy'r broses Canolfan Asesu a Datblygu (ADC) genedlaethol. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.2<br>A yw'r Awdurdod yn datblygu gweithlu amrywiol sydd â chyfle cyfartal yn barhaus?<br>Cadw. | Mae gan yr Awdurdod amcan corfforaethol i 'greu sefydliad sy'n gweithredu ein gwerthoedd'. | Risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â dyletswydd statudol a methiant i ymgorffori cydraddoldeb yn llawn o ganlyniad i hyn. | Canolig | Mae enghreifftiau o fenter yn cynnwys:<br>• Adolygwyd y cynllun cydraddoldeb hiliol a chafodd ei ail-lansio yn 2008.<br>• Mae'r Awdurdod wedi rhoi polisi gwrth-aflonyddu a gwrth-fwlio ar waith ac mae rhaglen o hyfforddiant sy'n ymwneud ag amrywiaeth wedi'i chyflawni ar bob lefel.<br>• Sefydlwyd Grŵp Llywio sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn dilyn adolygiad gan y gwasanaeth archwilio mewnol.<br>• Atgyfnerthwyd trefniadau'r tîm cefnogi cydweithwyr. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| Strategaeth Adnoddau Dynol | 6.3<br>A yw'r Awdurdod wedi datblygu cynlluniau lleol i gefnogi'r broses o roi'r 'Strategaeth Adnoddau Dynol' ar y cyd ar waith o ran ei strategaeth ehangach a'r meysydd amrywiol. | Mae strategaeth yn cael ei datblygu. | Methiant i ddatblygu cynlluniau lleol i gefnogi'r broses o roi'r 'Strategaeth Adnoddau Dynol' ar y cyd ar waith o ran ei strategaeth ehangach a'r meysydd amrywiol. | Canolig | Mae gan yr Awdurdod strategaeth Adnoddau Dynol leol ar ffurf ddrafft. Defnyddiwyd Strategaeth Adnoddau Dynol Cymru gyfan 2008 i lunio hwn, a bydd yn cael ei hymgorffori yng nghynllun busnes 2009-10 ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Sgiliau Dysgu a Datblygu. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.4<br>A yw'r Awdurdod wedi cydweithio i rannu polisi Adnoddau Dynol lleol ac arfer da ledled Cymru? | Mae'r Awdurdod wedi bod yn cydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill. | Methiant i rannu polisi Adnoddau Dynol lleol ac arfer da ledled Cymru. | Canolig | Datblygwyd Strategaeth Adnoddau Dynol Cymru gyfan gan Swyddogion o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a chafodd ei chyflwyno i'r Sefydliad Siartredig Datblygiad Personol i sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu arfer da.<br>Enghraifft o arfer da yw secondiad cyfredol Prif Swyddog Tân Cynorthwyol o Wasanaeth Tân ac Achub Glannau Merswy. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.5<br>A yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad, i geisio cyrraedd y safon uchaf posibl? | Mae'r Awdurdod wedi cyflawni'r lefel Aur. | Methiant i gynnal 'arfer gorau'. | Canolig | Bydd yr Awdurdod yn gwneud cyflwyniad yn ystod Hydref 2009 mewn ymgais i gyrraedd y safon Blatinwm, tra'n parhau i gynnal y safon Aur. | Isel | |
| Datblygu'r gweithlu | 6.6<br>A yw'r Awdurdod wedi rhoi System Datblygu Personol Integredig ar waith yn llawn ac yn gyson ar gyfer pob aelod o staff a gyflogir o dan amodau'r llyfrau Llwyd ac Aur? | **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno Cofnodion Dril Personol i ategu'r hyfforddiant risg cyfredol, a gwnaed trefniadau i gefnogi hyfforddiant mewn gorsafoedd yn y ganolfan. (Risg 8) | Methiant posibl i ymgysylltu'n llawn â'r gweithlu. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu'r cymorth a'r hyfforddiant a roddir i staff gweithredol, gyda chydgysylltu gwell rhwng Adnoddau Dynol a Hyfforddiant.<br>**Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** Mae gan y Gwasanaeth archwiliadau o gymwyseddau gweithredol craidd ar bob lefel a phroses weithredol o fonitro digwyddiadau. Mae proses ddadfriffio wedi'i rhoi ar waith i nodi canlyniadau datblygu a'u rhannu. (Risg 16) | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.7<br>A yw'r Awdurdod wedi cymhwyso egwyddorion System Datblygu Personol Integredig i'r broses o recriwtio, datblygu a chynyddu gallu pob aelod arall o staff? | Caiff Adolygiadau Datblygu Personol eu cynnal gan yr holl staff anweithredol, hy, y Llyfr Gwyrdd.<br>Mae'r Awdurdod wedi adolygu polisïau gweithredu, gan gynnwys effeithiau cydraddoldeb a monitro digwyddiadau. | Methiant posibl i ymgysylltu'n llawn â'r gweithlu. | Canolig | Mae angen i'r Awdurdod weithredu'r meysydd allweddol ar gyfer datblygu a gynhwysir yn adroddiad y Tîm Asesu Cymheiriaid. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.8<br>A yw'r Awdurdod wedi sicrhau bod pob grŵp system ddyletswydd a phob grŵp o staff yn cael cyfle cyfartal i achub ar gyfleoedd i ddatblygu a gwella sgiliau?<br>Dylai hyn gynnwys adolygiadau perfformiad unigol blynyddol, gan gynnwys asesiad yn erbyn y safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, a sicrhau bod cyflogeion yn cael hyfforddiant a chynlluniau datblygu clir sy'n ystyried gwersi a ddysgwyd o waith ymchwil a digwyddiadau gwasanaeth. | Mae'r Awdurdod yn rhoi ystod o strategaethau ar waith. | Methiant i ymgysylltu â'r gweithlu. | Canolig | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r broses ADC Genedlaethol.<br>Yn y broses Asesu ddiweddaraf, symudodd personél y System Ddyletswydd Wrth Gefn i Amser Cyflawn fel rhan o reolaeth goruchwylio'r Gwasanaeth.<br>Mae personél ar bob system ddyletswydd yn gallu achub ar gyfleoedd datblygu sy'n gysylltiedig â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac maent yn destun asesiadau yn y gweithle sy'n gysylltiedig â'r Safonau. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.9<br>A yw'r Awdurdod wedi datblygu dulliau cydweithredol o ddatblygu'r gweithlu a chyflwyno System Datblygu Personol Integredig drwy'r Grŵp Strategol Datblygu Sefydliad?<br>Dylai hyn gynnwys y broses o gynnal ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol lle y bo'n ymarferol, gan ddefnyddio Profion Dewis Pwynt Mynediad Cenedlaethol. | Rhaglen recriwtio Cymru gyfan ar waith yn 2009. | Methiant posibl i recriwtio. | Canolig | Mae personél yr Awdurdod yn achub ar gyfleoedd datblygu gweithredol gyda chydweithwyr o ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru yn y Coleg Gwasanaethau Tân (FSC) fel rhan o Hyfforddiant Fertigol Cymru Gyfan.<br>Ar hyn o bryd, mae Awdurdod Gogledd Cymru, mewn partneriaeth ag Awdurdod Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn cymryd rhan mewn ymgyrch recriwtio amser cyflawn sy'n defnyddio profion y Gwasanaeth Tân Cenedlaethol. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.10<br>A yw'r Awdurdod wedi defnyddio dulliau'r Ganolfan Datblygu Asesiadau o wneud cynnydd i sicrhau bod modd trosglwyddo a rhyngweithredu sgiliau a chymwyseddau? | Mae'r Awdurdod yn sicrhau y gellir trosglwyddo rhwng systemau dyletswydd a rhyngweithrededd â gwasanaethau eraill drwy ddefnyddio proses Genedlaethol y Ganolfan Datblygu Asesiadau ar y tair lefel o reoli. | Methiant posibl i ymgysylltu â'r gweithlu. | Canolig | Caiff y broses hon ei hadolygu'n barhaus gan y ganolfan hyfforddi. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| Datblygu arweinyddiaeth | 6.11<br>A yw'r Awdurdod wedi defnyddio 'Aspire' neu unrhyw raglenni datblygu eraill fel rhan o ymagwedd fodiwlaidd? (e.e. rhaglenni rheoli ac arwain a ddarperir drwy Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru). | Mae gan yr Awdurdod ddau aelod o staff sy'n dilyn y Rhaglen Arwain Estynedig ac mae'n bwriadu cynnwys trydedd aelod o staff yng ngharfan 2009. | Methiant posibl i ymgysylltu â'r gweithlu. | Canolig | Mae'r Rhaglen Arwain Estynedig yn rhan o'r Cyfleoedd Datblygu Uwch Swyddogion a gynigir gan y Ganolfan Arwain.<br>Mae'r datblygiadau rheoli ar lefelau goruchwylio a chanolig wedi'u croes-fapio i sicrhau cydymffurfiaeth â Model Aspire Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 6.12<br>A yw'r Awdurdod wedi cyflawni gwaith i gau unrhyw fylchau a all fodoli rhwng y lefel gyfredol o sgiliau dwyieithog a'r lefel sy'n ofynnol, a fydd yn rhoi'r cyfle i staff weithio yn y cymunedau a darparu gwasanaethau yn unol â chynlluniau statudol? | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg (2006-09). Mae'r cynllun hwn yn cynnwys polisi, cynlluniau gweithredu a pherfformiad presennol.<br>Cyflwyno hunanddatblygiad yn yr iaith Gymraeg drwy ddefnyddio dwy lefel o Gryno Ddisgiau clywedol. | Methiant posibl i gydymffurfio â pholisi cenedlaethol. | Canolig | Mae'r Awdurdod yn cyflawni gwaith da o ran datblygu sgiliau iaith ymhlith ei staff a chafodd ei gymeradwyo am y cynnydd hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2008. | Isel | |
| | 6.13<br>A yw'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant i staff sydd am ddysgu Cymraeg ac yn recriwtio staff â sgiliau dwyieithog i swyddi penodol? | Mae Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod newydd o staff a'r rheini sy'n llwyddo i gael dyrchafiad ddysgu lefel sylfaenol o Gymraeg. | Methiant posibl i gydymffurfio â pholisi cenedlaethol. | Canolig | Dylai gwaith parhaus wella sylfaen sgiliau dwyieithog y gwasanaeth. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.14<br>Cynllun Cydraddoldeb Sengl | | Siaradwch â Shan. | | | | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.15<br>A yw'r Awdurdod wedi cynnal hunanasesiad gan ddefnyddio adnodd Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? | Mae'r Fframwaith yn nodi y bydd Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas y Prif Swyddogion Tân yn ystyried p'un a ddylid cyflwyno'r Fframwaith Gwella Cydraddoldeb i'r Awdurdodau yn ystod 2008, ynghyd â thargedau recriwtio sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth ar lefel leol ac ar lefel Cymru gyfan. | | | | | |
| System Ddyletswydd Wrth Gefn | 6.16<br>A yw'r Awdurdod yn gweithio tuag at sefydlu System Ddyletswydd Wrth Gefn gynaliadwy sy'n cydnabod pwysigrwydd ymrwymiad unigolion ac yn eu gwobrwyo'n ddigonol am hynny? | Mae'r Cynllun Gwella yn tynnu sylw at bwysigrwydd staff y System Ddyletswydd Wrth Gefn. | Methiant posibl i ymgysylltu'n llawn â'r gweithlu. | Canolig | Nid oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddim cynlluniau ar y gweill i newid y system taliadau am Ddyletswydd Wrth Gefn gan na ellir fforddio unrhyw system gyflog ar hyn o bryd. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 6: Pobl a Datblygu Pobl** | | | | | | | |
| | 6.17<br>A oes gan yr Awdurdod ddulliau arloesol o wella'r broses o recriwtio staff y System Ddyletswydd Wrth Gefn? | *Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i adolygu gweithrediad y System Ddyletswydd Wrth Gefn yng Nghymru erbyn 2011 a chyflwyno argymhellion i Weinidogion.* | Methiant posibl i recriwtio i'r System Ddyletswydd Wrth Gefn. | Canolig | Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn datblygu rhaglen busnes i fusnes gyda chyrff cyhoeddus eraill i gynorthwyo'r broses recriwtio. Mae peth llwyddiant wedi'i gyflawni yn Ne Gwynedd fel rhan o'r treial. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 7: Rheoli Perfformiad er mwyn Llywio Gwelliannau** | | | | | | | |
| Systemau a strwythurau | 7.1<br>A oes gan yr Awdurdod systemau a strwythurau ar waith i fonitro perfformiad a sicrhau gwerth am arian yn y gwasanaeth a ddarperir ganddynt? | Yn 2008, nodwyd gan yr Asesiad Risg ar y Cyd fod gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb.<br>Mae'r Cynllun Gwella a'r Cynllun Lleihau Risg yn nodi dull strategol cyffredinol y gwasanaeth. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Uchel | Fel y nodwyd yn yr Asesiad Risg ar y Cyd, mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'i bwysau ariannol a'r angen i gynnal sefyllfa ariannol effeithiol i sicrhau y darperir y Gwasanaeth. | Canolig | |
| | 7.2<br>A oes gan y gwasanaeth raglen i ddarparu'r data a gasglwyd ac a gyflwynwyd o ran Trefniadau Brys y Gwasanaeth Tân. | Mae'r Awdurdod yn datblygu'r broses o gasglu data ac mae tîm penodol wedi'i sefydlu. | Risg bosibl nas defnyddir Trefniadau Brys y Gwasanaeth Tân i lywio'r gwasanaeth. | Canolig | Defnyddir Trefniadau Brys y Gwasanaeth Tân i lywio'r gwaith o dargedu adnoddau a gweithgareddau yn well. **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) y canlynol:** Mae cynnydd wedi'i gyflawni o ran defnyddio Trefniadau Brys y Gwasanaeth Tân ac adnoddau a briodolir i'r maes hwn. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y potensial i ddefnyddio'r adnodd hwn yn fwy yn y dyfodol unwaith y bydd y data wedi'i ddilysu. (Risg 1) | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 7: Rheoli Perfformiad er mwyn Llywio Gwelliannau** | | | | | | | |
| Effeithlonrwydd y Sector Cyhoeddus | 7.3<br>A yw'r Awdurdod yn debygol o gyflawni'r targed effeithlonrwydd sef un y cant? | Yn ei Gynllun Gwella, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cofnodi gwerth £286,000 o arbedion ar gyfer 2007-08, sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd mewn ystod o feysydd gan gynnwys arbedion mawr o ran gwneud defnydd gwell o amser a sgiliau'r staff. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Canolig | Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn parhau i fynd i'r afael â'r angen i wneud arbedion. Mae ei Gynllun Gwella yn nodi iddo ragamcan y bydd gwerth £61,000 o arbedion ar gyfer 2008-09 ac mae hefyd yn rhagamcan arbedion tymor hwy ar gyfer 2009-10. | Canolig | |
| | 7.4<br>A yw'r Awdurdod wedi cofnodi ei berfformiad yn erbyn y targed effeithlonrwydd sef 1% yn ei gynllun gwella blynyddol ac ar wahân i Lywodraeth y Cynulliad? | Fe'i cofnodwyd yn y Cynllun Gwella ac yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2008-09.<br>[Tudalen 60] | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Canolig | Cyflwyno adroddiadau parhaus fel rhan o broses y Cynllun Gwella. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 7: Rheoli Perfformiad er mwyn Llywio Gwelliannau** | | | | | | | |
| | 7.5<br>A yw'r Awdurdod wedi cydweithio drwy Grŵp Caffael Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân i sicrhau y caiff cynigion arloesol ar gyfer cyflawni effeithlonrwydd eu rhannu ledled Cymru? | Mae'r Awdurdod wedi ceisio cydweithio mewn perthynas â'r fanyleb cyfarpar ar gyfer Cymru Gyfan ond mae wedi cytuno i gaffael y genhedlaeth newydd o Gyfarpar Diogelu Personol mewn ffordd arall. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Canolig | Bydd yr Awdurdod yn parhau i asesu ei anghenion gan ystyried cydweithio ond hefyd gydnabod yr angen am effeithlonrwydd lleol. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 7: Rheoli Perfformiad er mwyn Llywio Gwelliannau** | | | | | | | |
| Rheoli Perfformiad a Gwelliant | 7.6<br>A yw'r Awdurdod wedi defnyddio Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a chanllawiau cysylltiedig i gyflwyno darlun clir a chadarn o'i berfformiad a'r meysydd y mae'n bwriadu eu gwella, ar y cyd â'i gynigion i leihau risg wrth ddarparu gwasanaethau? | Mae'r Awdurdod wedi cwblhau ffurflenni ystadegol ar ei berfformiad ac eithrio FRS/EFR/S/001, FRS/EFR/S/002 a FRS/RRC/S/004. Cyflwynwyd dangosyddion dirprwyol yn y Cynllun Gwella i nodi amseroedd ymateb cyfartalog a gwirioneddol i danau mewn cartrefi, a'r adnoddau a ddyrennir i archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a chyhoeddi canllawiau ar ddiogelwch.<br>Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cyflwyno adroddiad yn erbyn EFR/001 ac EFR/002 ar gyfer 2008-09. O ran cyflwyno adroddiadau yn erbyn FRS/RRC/S/004 ar gyfer 2008-09, mae'r gwasanaeth wrthi'n bwrw golwg dros gronfeydd data sy'n cynnwys dros 70,000 o gofnodion testun rhydd o archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd ers mis Ebrill 2006 er mwyn nodi cartrefi lle cafwyd tân. Cyflwynir canlyniadau 2008-09 yn y Cynllun Gwella, ond mae'r gwasanaeth yn derbyn y gall tangofnodi fod yn broblem wrth ddelio â chronfa ddata mor fawr o gyfeiriadau testun rhydd. | Methiant posibl i gyflawni targedau oherwydd diffyg monitro effeithiol. | Canolig | Mae'r Cynllun Gwella yn nodi'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gwella'r gwasanaeth ac yn rhoi amrywiaeth o fanylion am strwythur, perfformiad a systemau ariannu'r Awdurdod. Mae'r Cynllun Gwella hefyd yn nodi'r amrywiaeth o risgiau Cymunedol a Chorfforaethol ynghyd â'r camau gweithredu a gymerir a'r cynnydd a wneir. Mae Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg Presennol yn cynnwys pedwar cynnig a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ac eithrio'r cynnig i adolygu trefniadau arlwyo. | Canolig | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 7: Rheoli Perfformiad er mwyn Llywio Gwelliannau** | | | | | | | |
| Fframwaith a Meddalwedd Mesur Perfformiad | 7.7<br>A yw'r Awdurdod wedi defnyddio'r fframwaith perfformiad (dangosyddion statudol, craidd a lleol)? | Ac eithrio'r hyn a nodwyd uchod, mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno adroddiad ar yr ystod eang o ddangosyddion. | Methiant posibl i gyrraedd targedau oherwydd diffyg monitro effeithiol. | Canolig | Gweler y sylwadau uchod. | Canolig | |
| | 7.8<br>A yw'r Awdurdod wedi defnyddio Fynnon (system rheoli perfformiad dewisol Llywodraeth y Cynulliad). | Mae'r Awdurdod yn ceisio pennu dull cyffredin o weithredu â'r ddau Gwasanaeth Tân ac Achub arall ac mae'n trafod methodolegau gyda Llywodraeth y Cynulliad. | Methiant posibl i gyrraedd targedau oherwydd diffyg monitro effeithiol. | Canolig | Bydd yr Awdurdod yn asesu ei ddull o weithredu yn unol â chyngor/cymorth gan Lywodraeth y Cynulliad. | Canolig | |
| Codi tâl | 7.9<br>A yw'r Awdurdod wedi pennu a fydd yn codi tâl am wasanaeth penodol (gan ddefnyddio'r pwerau o dan orchymyn FRS (Codi Tâl) (Cymru) 2006? | Mae'r Awdurdod yn parhau i godi tâl am Alwadau Gwasanaeth Arbennig yn unol â'r ddeddfwriaeth. | Cyfle posibl i sicrhau incwm. | Isel | Adolygiad parhaus o daliadau. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 7: Rheoli Perfformiad er mwyn Llywio Gwelliannau** | | | | | | | |
| | 7.10<br>Lle mae'r Awdurdod wedi codi tâl am ei wasanaethau, a yw wedi gwneud hynny yn unol â Gorchymyn FRS (Codi Tâl) (Cymru) 2006? | Mae'r Awdurdod yn parhau i godi tâl am Alwadau Gwasanaeth Arbennig yn unol â'r ddeddfwriaeth. | Cyfle posibl i sicrhau incwm. | Isel | Adolygiad parhaus o daliadau. | Isel | |
| Masnachu | 7.11<br>A yw'r Awdurdod wedi cynnal unrhyw weithgareddau gan ddefnyddio pwerau Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006? | Ni wnaed unrhyw gynnydd hyd yma. | Adolygiad parhaus o daliadau. | Isel | Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu datblygu'r maes hwn yn y dyfodol agos. | Isel | |

| | | Tystiolaeth (y sefyllfa bresennol) | Effaith bosibl | Risg Gynhenid | Mesurau a/neu reolaethau lleihau risg y Gwasanaeth Tân ac Achub | Risg Weddilliol | Mesurau lleihau risg y rheoleiddiwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 7: Rheoli Perfformiad er mwyn Llywio Gwelliannau** | | | | | | | |
| Cynlluniau Rheoli Asedau | 7.12<br>A yw'r Awdurdod wedi datblygu Cynllun Rheoli Asedau yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ac wedi rhoi copi ohono i Lywodraeth y Cynulliad? | Ydy, cyfleusterau ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru. | Methiant posibl i reoli'r ystâd. | Canolig | Mae'r uned ar y cyd yn llunio Cynllun Rheoli Asedau ac yn cynnal asesiad o adeiladau o ran y defnydd a wneir o ynni a dŵr. | Isel | |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk